

Graddau Aesu Canolfannau – Cwestiynau Cyffredin



Cyflwyniad

Ar 18 Mawrth 2020 [cyhoeddodd](#)¹ y Gweinidog Addysg yng Nghymru y byddai ysgolion yn cau ac y byddai cyfres arholiadau haf 2020 yn cael ei chanslo.

Ar 20 Mawrth, gwnaethom gyhoeddi [datganiad](#)² yn amlinellu'r dull o ddyfarnu graddau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn. Bydd y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn yn cael gradd wedi'i chyfrifo ar sail ystod o dystiolaeth. Fe wnaethom ddilyn hyn gyda [blog](#)³ yn amlinellu ein dull.

Ar 27 Mawrth, gwnaethom gyhoeddi [datganiad](#)⁴ ynglŷn â'r rhai sydd i fod i sefyll eu cymwysterau Safon UG a dysgwyr Blwyddyn 10 a fyddai wedi cymryd asesiadau uned yng Nghymru yr haf hwn. Bydd dysgwyr UG yn derbyn gradd wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth. Ni fydd dysgwyr blwyddyn 10 a gofrestrwyd ar gyfer unedau yn derbyn gradd uned wedi'i chyfrifo. Ar gyfer dysgwyr UG a dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer unedau ym Mlwyddyn 10 fel rhan o gymhwyster TGAU, gwneir ystyriaeth yn haf 2021 pan fyddant yn sefyll eu Safon Uwch a TGAU llawn yn y drefn honno.

Er mwyn casglu'r dystiolaeth orau sydd ar gael, rydym yn gofyn i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill gyflwyno graddau asesu canolfannau, ynghyd â threfn restrol o ddysgwyr er mwyn galluogi dyfarnu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC).

Nod y Cwestiynau Cyffredin canlynol yw rhoi atebion i fyfyrwyr, rhieni, gofalwyr ac athrawon i gwestiynau cyffredin am raddau asesu canolfannau. Byddwn yn gweithio i ychwanegu at y rhain dros yr wythnosau nesaf, gyda diweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar-lein.

Pa gymwysterau sy'n cael eu cynnwys?

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i bob canolfan arholi yng Nghymru sy'n defnyddio'r c cymwysterau cymeradwy canlynol a reoleiddir gennym ni ac a gynigir gan CBAC.

- TGAU
- Safon UG
- Safon Uwch
- Tystysgrif Her Sgiliau (SCC) - rhan o Fagloriaeth Cymru

¹ <https://llyw.cymru/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru>

²

³ <https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/blogiau/amseroedd-anodd-i-bob-un-ohonom/>

⁴

Mae'r wybodaeth hon hefyd yn ymdrin â'r cymwysterau dynodedig canlynol: TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (dyfarniad sengl), TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (dyfarniad dwbl), TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (cwrs llawn), TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (cwrs byr), TAG mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (UG a Safon Uwch), TAG mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Cymhwysol (UG a Safon Uwch).

A yw'r broses hon yn berthnasol i gymwysterau galwedigaethol a thechnegol hefyd?

Mae'r broses hon yn berthnasol i TGAU, Safon UG, Safon Uwch a'r SCC yn unig. Byddwn yn rhoi arweiniad pellach ar gymwysterau galwedigaethol a thechnegol cyn gynted ag y gallwn. Yn y cyfamser rydym wedi cyhoeddi [blog](#)⁵ yn amlinellu ein dull o weithredu'r cymhwysterau hyn.

Sut bydd graddau asesu canolfannau'n gweithio?

Rydym yn gofyn i ganolfannau ddefnyddio eu harbenigedd proffesiynol. Byddant yn cyflwyno graddau i CBAC y mae'n rhaid iddynt adlewyrchu dyfarniad teg, rhesymol ac ystyriol o'r radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chyflawni pe bai wedi sefyll ei arholiadau yr haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiadau diartholiad. Mae'n bwysig bod athrawon yn defnyddio barn broffesiynol gyfannol, gan gydbwysu ystod lawn o dystiolaeth wrth raddio dysgwyr - gan gynnwys asesiadau diartholiad; canlyniadau unrhyw aseiniadau gwaith cartref neu ffug arholiadau; ac unrhyw gofnodion perfformiad eraill yn ystod yr astudiaeth. Rydym hefyd yn gofyn i ganolfannau ddarparu trefn restrol o ddysgwyr o fewn pob gradd.

Rydym wedi darparu [arweiniad](#) clir i ganolfannau ar y broses raddio a llunio trefn restrol er mwyn sicrhau bod athrawon mewn gwahanol ganolfannau yn defnyddio dull cyffredin o asesu eu myfyrwyr.

Pryd a sut y bydd graddau asesu canolfannau yn cael eu cyflwyno i CBAC?

Bydd CBAC yn darparu cyfarwyddiadau manwl i ganolfannau ynghylch pryd a sut i gyflwyno graddau asesu canolfannau a'r drefn restrol ar ôl y Pasg. Ni fydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data cyn 29 Mai 2020. Yn y cyfamser, rydym yn gofyn i ganolfannau ddechrau'r gwaith i gynhyrchu eu graddau asesu canolfannau a'u trefnau rhestrol.

A ddylai canolfannau barhau i gasglu tystiolaeth o berfformiad myfyrwyr?

Gofynnwyd i ganolfannau roi eu barn o'r radd y credant y byddai dysgwr wedi bod fwyaf tebygol o'i chyflawni pe bai wedi gallu sefyll ei arholiadau. Wrth wneud y dyfarniad hwn, dylai athrawon dynnu ar ystod o dystiolaeth bresennol o berfformiad dysgwyr yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Nid oes unrhyw ofyniad i athrawon osod

⁵ <https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/blogiau/sawl-ateb-i-gwestiynau-cymhleth-ynghyd-at-cymwysterau-galwedigaethol/>

gwaith newydd na chasglu tystiolaeth bellach gan ddysgwyr ar y pwynt hwn at ddibenion pennu gradd asesu canolfan. Efallai y bydd rhai canolfannau eisiau parhau i osod gwaith i sicrhau bod yr holl addysgu a dysgu wedi'i gwblhau, ond ni ddylid gwneud hyn i gynorthwyo graddio.

Beth mae hyn yn ei olygu i asesiadau diarholiad?

Mewn rhai pynciau bydd dysgwyr wedi cwblhau, neu bron â chwblhau, asesiadau diarholiad. Bydd hyn yn ddefnyddiol fel rhan o'r dystiolaeth sydd ar gael i ganolfannau wrth benderfynu ar radd asesu canolfan pob dysgwr a'r drefn restrol. Nid oes angen i ganolfannau ofyn i ddysgwyr gwblhau unrhyw waith asesiadau diarholiad sydd heb ei orffen. Mae CBAC hefyd wedi cyhoeddi [canllawiau](#)⁶ ar hyn.

A oes angen i ganolfannau gyflwyno'r dystiolaeth y maent wedi'i defnyddio?

Na, nid oes angen i ganolfannau gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol, fel gwaith dysgwr, i CBAC, ond dylent gadw cofnodion o'r graddau a'r drefn restrol a gyflwynwyd, rhag ofn bod gan CBAC unrhyw ymholiadau am y data.

Wrth gyflwyno'u gradd a'u trefn restrol, bydd canolfannau'n rhoi sicrwydd proffesiynol eu bod wedi ystyried yr ystod lawn o dystiolaeth sy'n ofynnol. Bydd Penaethiaid Canolfannau yn atebol am gywirdeb y data a gyflwynir.

Sut fydd hyn yn gweithio ar gyfer pynciau haenog?

Yn achos pynciau TGAU haenog, dim ond graddau asesu canolfannau sy'n adlewyrchu haen mynediad y dysgwr unigol y dylai canolfannau eu darparu.

A all ANG wneud y gwaith graddio hwn?

Gall Athrawon Newydd Gymhwyso gyfrannu at gynhyrchu graddau asesu canolfannau ar gyfer eu dysgwyr a dylent gael eu cefnogi gan eu Pennaeth Adran i gwblhau hyn. Rhaid i raddau a threfn restrol y ganolfan ddod gan Bennaeth y Ganolfan, ac mae'n rhaid iddynt lofnodi datganiad

A fydd graddau asesu'r ganolfan yn gywir?

Mae gan asesiad ysgol, coleg ac athro rôl bwysig eisoes mewn llawer o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r SCC. Mewn sefyllfa ddigynsail fel hon, mae athrawon mewn sefyllfa dda i farnu perfformiad tebygol eu dysgwyr ar ddiwedd y cwrs.

Mae tystiolaeth i ddangos y gall athrawon roi dysgwyr mewn trefn restrol gyda chywirdeb uchel. At hynny, bydd yr holl raddau asesu canolfannau a gyflwynir gan athrawon yn cael eu safoni'n allanol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod graddau'n debyg rhwng canolfannau.

⁶ <https://www.wjec.co.uk/cy/home/athrawon-a-dysgwyr-ledled-cymru-rydym-yn-falch-o-ch-cefnogi-chi/coronafeirws-cwestiynau-cyffredin-asesiadau-di-arholiad/>

Sut y bydd graddau asesu canolfannau yn cael eu safoni?

Er mwyn sicrhau bod graddau'n deg rhwng canolfannau, bydd CBAC yn rhoi pob gradd asesu canolfan trwy broses safoni. Bydd yn edrych ar dystiolaeth fel y canlyniadau cenedlaethol disgwyliedig ar gyfer dysgwyr eleni, cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr ymhob ysgol a choleg, a chanlyniadau'r ysgol neu'r coleg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Os yw'n ymddangos bod dyfarniadau graddio mewn rhai canolfannau yn fwy llym neu hael nag eraill, bydd CBAC yn addasu graddau rhai neu'r cyfan o'r dysgwyr hynny i fyny neu i lawr yn unol â hynny.

A fydd dysgwyr yn gweld eu graddau asesu canolfan yn seiliedig ar amcangyfrifon eu hathrawon?

Na, ni ddylai canolfannau, o dan unrhyw amgylchiadau, rannu graddau asesu'r ganolfan na threfn restrol dysgwyr gyda dysgwyr, na'u rhieni na'u gofawyr, nac unrhyw unigolion eraill y tu allan i'r ganolfan. Pwrpas hyn yw amddiffyn hygredd dyfarniadau athrawon, ac osgoi rhoi athrawon, Penaethiaid Adran neu Benaethiaid Canolfannau dan bwysau gan ddysgwyr a rhieni, i gyflwyno gradd nad yw'n cael ei chefnogi gan y dystiolaeth. Gan y gallai'r graddau terfynol a roddir i rai neu bob dysgwr fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd, mae hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau dysgwyr.

Pryd fydd y canlyniadau'n cael eu rhyddhau?

Byddwn yn gweithio'n galed i gyhoeddi canlyniadau cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na'r dyddiadau cyhoeddedig ar 13 Awst ar gyfer Safon UG a Safon Uwch ac 20 Awst ar gyfer TGAU. Byddwn yn cadarnhau dyddiadau cyn gynted ag y gallwn.

A fydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen i gam nesaf addysg neu gyflogaeth gyda'r graddau hyn?

Byddant, bydd y dull hwn yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu gyflogaeth yn yr hydref fel y cynlluniwyd. Rydym wedi trafod ein hymagwedd â Llywodraeth Cymru ac ystod o uwch randdeiliaid ac arweinwyr addysg perthnasol, sy'n gefnogol o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn. Mae cynrychiolwyr Addysg Uwch wedi cadarnhau eu bod yn disgwyl i brifysgolion a cholegau fod yn hyblyg i sicrhau dilyniant dysgwyr sydd â gradd asesu canolfan.

A fydd graddau a gyhoeddwyd yn 2020 yn cario'r un pwysau â graddau a gyhoeddwyd yn y blynyddoedd blaenorol neu yn y dyfodol?

Bydd gan y graddau a ddyfarnwyd eleni statws cyfartal i'r graddau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd eraill a dylent gael eu trin fel hyn gan brifysgolion, colegau a chyflogwyr. Ar y slipiau a'r tystysgrifau canlyniadau, bydd graddau'n cael eu hadrodd yn yr un modd ag mewn blynyddoedd blaenorol.

Bydd y broses o safoni graddau yn golygu y bydd graddau a gyhoeddwyd yr haf hwn yn debyg i raddau mewn blynyddoedd blaenorol, fel nad yw dysgwyr eleni yn cael eu breinio na'u difreinio'n systematig trwy ddefnyddio graddau asesu canolfannau.

A all dysgwyr apelio yn erbyn y graddau hyn?

O dan yr amgylchiadau, ni fydd y trefniadau arferol ar gyfer adolygiadau o farcio ac apeliadau yn berthnasol. Rydym yn ystyried pa drefniadau y gellid eu rhoi ar waith i ganiatáu apêl effeithiol, gan gadw nifer a chymhlethdod apeliadau yn hylaw er mwyn osgoi oedi ac ansicrwydd i fyfyrwyr.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael i athrawon, dysgwyr, rhieni a gofalwyr ar adeg cyhoeddi'r canlyniadau terfynol, er mwyn hwyluso unrhyw apeliadau yn erbyn y broses.

Sut bydd hyn yn effeithio ar ymgeiswyr allanol (preifat) a dysgwyr a addysgir gartref?

Rydym yn gwybod bod ymgeiswyr allanol - fel y rhai sy'n cofrestru'n breifat ar gyfer ail-sefyll, neu ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref - yn awyddus i wybod sut y gallai'r trefniadau hyn gael eu cymhwyso iddyn nhw. Lle mae canolfannau wedi derbyn ceisiadau gan 'ymgeiswyr preifat' (dysgwyr a allai fod yn cael eu dysgu gartref, yn dilyn rhaglenni dysgu o bell neu'n astudio'n annibynnol) dylid cynnwys y dysgwyr hynny lle mae Pennaeth y Ganolfan yn hyderus eu bod nhw a'u staff wedi gweld tystiolaeth ddigonol o gyflawniad y dysgwyr i lunio barn wrthrychol. Rydym ar hyn o bryd yn archwilio a oes opsiynau ar gyfer y dysgwyr hynny nad yw hyn yn bosibl ar eu cyfer ac sydd angen canlyniadau at ddibenion dilyniant. Byddwn yn darparu diweddariad cyn gynted â phosibl.

Sut fydd hyn yn effeithio ar ddysgwyr sy'n cael eu cofrestru'n gynnar?

Bydd dysgwyr Blwyddyn 10 a oedd i fod i sefyll arholiadau a fyddai wedi arwain at gymhwyster TGAU cyfan yr haf hwn yn cael gradd yn dilyn yr un broses â dysgwyr Blwyddyn 11.

Beth am ddysgwyr sydd â threfniant addasiad neu fynediad rhesymol y cytunwyd arno?

Dylai canolfannau ddod i farn ar y radd y byddai'r dysgwyr hyn yn fwyaf tebygol o'i chael pe byddent wedi gallu sefyll eu harholiadau gyda'r addasiad rhesymol neu'r trefniant mynediad arfaethedig.

Pan fydd gan ddysgwyr anabl drefniant mynediad cytunedig (er enghraifft darllenydd neu ysgrifennydd), neu lle mae gan ddysgwyr eraill drefniant mynediad y cytunwyd arno, dylai'r dyfarniad ystyried cyflawniad tebygol gyda'r trefniant addasu/mynediad ar waith.

A fydd ystyriaeth arbennig yn berthnasol eleni?

Ni fydd ceisiadau am ystyriaeth arbennig, sydd fel arfer yn berthnasol i sefyllfaoedd sy'n golygu nad yw dysgwr yn gallu gnweud asesiad neu'n dioddef digwyddiad trawmatig a allai effeithio ar ei berfformiad, yn berthnasol yr haf hwn. Yn hytrach, dylai dyfarniadau adlewyrchu sut y byddai'r dysgwyr wedi perfformio o dan amgylchiadau cyffredin. Lle gallai salwch fod wedi effeithio ar berfformiad mewn ffug arholiadau, dylai athrawon gofio hynny wrth lunio'u dyfarniadau.

Pryd fydd dysgwyr yn cael y cyfle nesaf i sefyll arholiadau?

Ar gyfer dysgwyr sy'n dewis sefyll arholiadau y maent wedi'u colli eleni, bydd cyfle i sefyll TGAU mewn Iaith Saesneg, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd ac Iaith Gymraeg ym mis Tachwedd 2020. Bydd cymwysterau eraill ar gael fel rhan o gyfres haf 2021.

Rwyf am barhau â'r cymhwyster Safon Uwch ond a allaf ail-sefyll fy Safon UG oherwydd nad wyf yn hapus â'r radd a gefais?

Bydd gennych ddau opsiwn yn haf 2021.

Opsiwn 1: Gallwch ddewis sefyll yr unedau UG a'r unedau A2 ar gyfer y Safon Uwch. Bydd y radd Safon Uwch lawn yn cael ei chyfrifo ar sut rydych chi'n gwneud ar bob uned yn y Safon Uwch lawn.

Opsiwn 2: Gallwch sefyll yr unedau A2 yn unig, a bydd eich perfformiad yn y rhain yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo canlyniad ar gyfer yr unedau UG. Yna defnyddir y marciau cyfun i gynhyrchu'r radd Safon Uwch.

Os dewiswch ddilyn opsiwn 1, bydd CBAC yn dal i wirio beth fyddai eich gradd gydag opsiwn 2. Os yw opsiwn 2 yn rhoi gradd uwch, yna byddwch yn cael y radd uwch.

Rydw i ym Mlwyddyn 10 ac roeddwn i fod i sefyll uned TGAU yr haf hwn, fel rhan o fy TGAU. Dydw i ddim eisiau gorfod gwneud fy holl arholiadau pan fyddaf ym Mlwyddyn 11. Beth sy'n digwydd?

Bydd gennych ddau opsiwn yn haf 2021.

Opsiwn 1: Gallwch ddewis sefyll yr unedau y byddech wedi'u gwneud beth bynnag ym Mlwyddyn 11 (arholiad ac NEA, os yw'n berthnasol). Bydd eich gradd gyffredinol yn cael ei chyfrifo ar sail yr unedau hynny.

Opsiwn 2: Gallwch ddewis sefyll yr unedau yr oeddech i fod i'w cwblhau ym Mlwyddyn 10, yn ogystal â sefyll yr unedau oedd i fod i gael eu sefyll ym Mlwyddyn 11 beth bynnag. Yna bydd eich gradd gyffredinol yn cael ei chyfrifo ar sail y perfformiad yn yr holl unedau. Fodd bynnag, pe bai'ch gradd o opsiwn 1 yn uwch, yna byddech chi'n cael y radd uwch.

Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr?

Oherwydd bod addysg yn faes datganoledig, mae gan Gymru a Lloegr rai gwahaniaethau ar draws cymwysterau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr ledled Lloegr a Gogledd Iwerddon i gymhwyso'r un egwyddorion i'n dulliau gweithredu yr haf hwn. Y prif wahaniaethau yw:

- Yng Nghymru, ni fydd cyfres arholiadau ychwanegol eleni, ond bydd y gyfres arholiadau arferol yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd ar gyfer TGAU mewn Iaith Saesneg, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith. •Yn Lloegr, mae yna gynlluniau i redeg cyfres arholiadau ychwanegol yn yr hydref.
- Yng Nghymru, mae cymwysterau UG yn cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch, ond yn Lloegr nid ydynt yn gwneud hynny. Mae ein [hymagwedd](#)7 at gymwysterau UG yng Nghymru yn adlewyrchu hyn.
- Yng Nghymru, bydd dysgwyr Blwyddyn 10 a gofrestrwyd ar gyfer TGAU llawn yr haf hwn yn derbyn gradd. Yn Lloegr, mae Ofqual yn ymgynghori ar gyhoeddi graddau i ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 ac is.